



**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C
25 Hydref, 2018, S4C Caernarfon**

Cyfarfod Rhif 421

Presennol:	Huw Jones Hugh Hesketh Evans Owen Derbyshire Rhodri Williams Anita George	(Cadeirydd) (Aelod o'r Bwrdd) (Aelod o'r Bwrdd) (Aelod o'r Bwrdd) (Aelod o'r Bwrdd)
Staff S4C:	Owen Evans Gwyn Williams Phil Williams Elin Morris Amanda Rees Catrin Whitmore Catrin Hughes Roberts Carys Evans Huw Jones Bethan C. Williams	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) (Ysgrifennydd y Bwrdd) (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol) Cyswllt Skype o'r Egin (Cyfarwyddwr Cynnwys) (Pennaeth Adnoddau Dynol) Cyswllt Skype o'r Egin – eitem 8 (Cyfarwyddwr Partneriaethau) Cyswllt Skype o Gaerdydd – eitemau 4 & 7 (Arweinydd Tîm Data a Dadansoddi) – eitem 9 (Uwch Swyddog Ystadegol) – eitem 9 (Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd y Bwrdd)
Ymddiheuriadau:	Siân Lewis Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Bwrdd) (Aelod o'r Bwrdd)

COFNODION

MATERION SEFYDLOG:

- 1. Croeso a Datganiadau Diddordeb**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Bwrdd yng Nghaernarfon.

Nodwyd mai hwn oedd cyfarfod olaf Elan Closs Stephens fel aelod o'r Bwrdd. Yn anffodus nid oedd Elan yn gallu bod yn bresennol heddiw.

Diolchodd y Cadeirydd iddi ar ran yr holl Aelodau am ei gwasanaeth, ei hymroddiad a'i chyfraniad pwysig i waith S4C a'r Bwrdd dros sawl cyfnod ers 1998, ac yn benodol yn ystod y cyfnod ers 2012 pan ymunodd Elan gyda'r Awdurdod o dan ddarpariaethau'r bartneriaeth newydd gyda'r BBC.

Nododd y Cadeirydd ei fod yn falch o gyhoeddi fod DCMS wedi ail-benodi Hugh Hesketh Evans am gyfnod o ddwy flynedd. Roedd yn falch y bydd Hugh yn parhau i arwain gwaith pwysig y Pwyllgor Archwilio.

Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran Bwrdd yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.
- 2. Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 420 a gynhaliwyd ar Fedi 26ain 2018**
Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 420 a gynhaliwyd ar Fedi 26ain.

Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd.

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 420**

Gofynnwyd i Aelodau nodi wrth ystyried y cofnodion yng nghyfarfodydd y dyfodol os ydynt o'r farn fod angen rhagor o fanylion mewn unrhyw gofnod.

4. **Pwyntiau Gweithredu**

Cyflwynwyd y Pwyntiau Gweithredu er gwybodaeth.

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Cyflwynodd CHR yr Adroddiad Blynyddol drafft ar weithredu Safonau'r Gymraeg. Esboniwyd fod gofyn i S4C baratoi adroddiad blynyddol yn ymwneud â gweithredu Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i waith S4C.

Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol i'w gyhoeddi ar wefan S4C.

Holwyd am rôl ehangach S4C o ran hyrwyddo'r Gymraeg a gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i gyrraedd targed y miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Esboniwyd fod cyfarfod wedi ei gynnal gyda Gweinidog y Gymraeg, Eluned Morgan AC, a bod trafodaethau ar waith gyda swyddogion y Llywodraeth er mwyn gweld sut y gall S4C gyfrannu. Roedd gwaith partnera gyda sefydliadau eraill ym maes y Gymraeg hefyd yn bwysig o ran cynyddu ardrawiad gweithgareddau S4C.

Penderfynwyd y dylid cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Bwrdd ym mis Chwefror parthed strategaeth S4C o ran ymwneud gyda tharged y Llywodraeth i anelu am filiwn o siaradwyr Cymraeg.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Diweddariad ar faterion strwythurol yr Adolygiad

Cyflwynodd PW dair dogfen yn ymwneud â materion strwythurol yr ymateb i'r Adolygiad, sef Rheolau Sefydlog drafft newydd ar gyfer y Bwrdd Unedol Cysgodol, MOU drafft rhwng S4C ac Ofcom, a diweddariad parthed trefniadau archwilio mewnol ac allanol S4C.

Rheolau Sefydlog drafft ar gyfer y Bwrdd unedol Cysgodol.

Cyflwynwyd y Rheolau Sefydlog drafft diwygiedig ac esboniwyd mai pwrpas y rheolau arfaethedig oedd cyflwyno trefn y Bwrdd Unedol Cysgodol yn unol ag argymhellion yr Adolygiad, ac ymatebion DCMS ac S4C. Roedd y rheolau sefydlog wedi eu teilwra'n benodol ar gyfer cyfnod y Bwrdd Unedol Cysgodol – sef y cyfnod lle mae disgwyl i S4C weithredu ar ffurf bwrdd unedol, ond lle nad yw'r ddeddfwriaeth berthnasol wedi ei ddiweddarau er mwyn caniatáu hynny.

Nodwyd fod fersiwn Saesneg wedi ei gylchredeg gan mai dyma'r fersiwn sydd wedi ei gyflwyno ar gyfer sylwadau DCMS.

Roedd y Bwrdd eisoes wedi cymeradwyo'r bwriad i weithredu ar sail Bwrdd Unedol Cysgodol nes y bydd y ddeddfwriaeth yn cyflwyno'r drefn yn ffurfiol. Nid oedd yn glir pryd y byddai amser ar gael o fewn yr amserlen seneddol ar gyfer cyflwyno mesur.

Roedd yr argymhelliad i weithredu fel bwrdd unedol cysgodol, cyn bod y darpariaethau statudol yn caniatáu hynny yn rhoi S4C mewn sefyllfa

amherffaith. Nodwyd bod cwestiynau parthed darpariaethau pleidleisio a chworwm angen eu hystyried yn ofalus yn ystod y cyfnod cysgodol, gan na ellid cael sefyllfa lle byddai naill ai dyletswydd yr Aelodau Anweithredol swyddogol i bleidleisio, neu ddarpariaethau ffurfiol chworwm yn cael eu heffeithio gan aelodau nad oedd yn aelodau ffurfiol.

Esboniwyd bod y ddeddf yn rhoi'r hawl i S4C roi mewn lle drefniadau ar gyfer cynnal ei fusnes, ac felly bod y rheolau sefydlog diwygiedig yn cael eu cymeradwyo o dan y darpariaethau hyn, ond o fewn y fframwaith a'r darpariaethau statudol perthnasol.

Roedd y rheolau sefydlog diwygiedig wedi eu cyflwyno i'r DCMS er gwybodaeth, ond nid oedd sylwadau wedi eu derbyn hyd yma.

Nodwyd fod nifer o ddarpariaethau ar flaen y rheolau wedi eu cynnwys er mwyn rhoi cyd-destun i randdeiliaid am strwythur a chyfrifoldebau S4C, yn ogystal â'r rheolau sefydlog penodol a fyddai'n rheoli ei gweithgareddau. Roedd y darpariaethau hyn wedi eu cynnwys yn dilyn proses yr Adolygiad, pan ddaeth yn amlwg fod dryswch yn parhau ymysg rhai rhanddeiliaid parthed strwythur a chyfrifoldebau S4C.

Cafwyd trafodaeth am rôl aelodau'r Bwrdd, a nodwyd na fyddai rôl na chyfrifoldebau'r aelodau anweithredol yn newid, ond y byddai gan y Prif Weithredwr, a maes o law aelodau gweithredol a gaiff eu penodi gan y Bwrdd gyfrifoldebau newydd fel cyfarwyddwyr bwrdd S4C, a'r Bwrdd Unedol Cysgodol nes y cyflwynir deddfwriaeth.

Cyflwynwyd y rheolau sefydlog a thrafodwyd rhai cymalau penodol.

Rheol 5.2

Nodwyd yr angen i sicrhau fod Cofnod Cyhoeddus y Bwrdd yn gyfredol ar y wefan. Esboniwyd fod prosiect ar waith er mwyn diweddarau a thacloso'r wefan gorfforaethol a oedd yn cynnwys diweddarau archif y cofnod cyhoeddus.

Rheol 15 - Hawliau Pleidleisio

Esboniwyd cymhlethdod y sefyllfa bleidleisio yng nghyfnod y Bwrdd Unedol Cysgodol, oherwydd na fyddai'r aelodau gweithredol yn aelodau ffurfiol y corff statudol. Nodwyd fod y sefyllfa yn un cymhleth ac amherffaith, ond mai dyma'r sefyllfa y mae argymhelliad y Bwrdd Unedol Cysgodol yn ei greu, nes y bydd y ddeddfwriaeth yn dal i fyny gyda'r strwythur sydd wedi ei argymell

Roedd rheolau 15.4 ac 15.5 yn ceisio rhoi proses yn ei le ar gyfer delio gyda sefyllfaoedd lle gallai pleidleisiau'r aelodau gweithredol effeithio ar bleidlais. Y bwriad oedd sicrhau fod y Cadeirydd yn llywio'r fath sefyllfa er mwyn sicrhau bod barn yr aelodau gweithredol yn cael ei barchu, yn ystod cyfnod y Bwrdd Unedol Cysgodol.

Rheol 20.6 - Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol

Trafodwyd yr argymhelliad i greu Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol, gan gyfuno nifer o swyddogaethau ychwanegol o fewn y Pwyllgor Archwilio, megis cyfrifoldebau enwebu aelodau gweithredol. Roedd yr argymhelliad i greu un pwyllgor yn ymgais i symleiddio'r strwythur o gofio bod cymaint o ddyletswyddau i'w cyflawni, ond cyn lleied o aelodau anweithredol.

Nodwyd y gallai gynnwys cymaint o gyfrifoldebau o fewn pwyllgor sydd â chyfrifoldebau craffu materion ariannol greu gwrthdaro buddiannau. Fodd

bynag, o ystyried nifer yr aelodau anweithredol, hyd yn oed pe byddai'r materion hyn yn cael eu dosrannu rhwng rhagor o bwyllgorau, fe fyddai nifer o'r un aelodau yn eu hystyried, ac felly byddai dim rhaniad llwyr bryd hynny ychwaith.

Penderfynwyd ail-strwythuro'r Pwyllgor Archwilio yn unol â'r Rheolau Sefydlog a'i enwi'n Bwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol.

Rheol 21 – gweithgareddau masnachol

Penderfynwyd addasu darpariaethau rheol 21.9 er mwyn rhoi dyletswydd ar y Bwrdd Masnachol i gyfarfod gyda'r Bwrdd unwaith y flwyddyn, ond oherwydd gofynion penodol y Ddeddf Cwmnïau, na fyddai'r cyfarfod hwn yn Gyfarfod Blynyddol Cyffredinol (AGM). Penderfynwyd cyfeirio at 'annual meeting' yn lle 'annual general meeting'.

Cymeradwywyd y Rheolau Sefydlog gan y Bwrdd, gan ymgorffori'r diweddariadau uchod, a dirprwyo i'r Cadeirydd yr hawl i ymateb i sylwadau a ddaw gan DCMS.

Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn gweithredu fel Bwrdd Unedol Cysgodol o fis Tachwedd, ac felly y byddai angen cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol er mwyn cyflwyno argymhelliad parthed penodi aelodau gweithredol i'r Bwrdd.

MOU drafft gydag Ofcom

Cyflwynwyd y Memorandwm o Ddealltwriaeth drafft ar gyfer ystyriaeth y Bwrdd. Esboniwyd fod yr MOU drafft yn un o gynigion S4C mewn ymateb i sylwadau'r Adolygiad am berthynas statudol S4C ac Ofcom mewn perthynas â rheoleiddio gwasanaeth teledu S4C. Nid oedd yn creu unrhyw ddyletswyddau newydd, ond yn hytrach, y bwriad oedd cynnwys holl elfennau'r berthynas, a chyfrifoldebau S4C ac Ofcom mewn un ddogfen.

Roedd crynodeb syml o'r berthynas eisoes wedi ei gyhoeddi ar wefan S4C.

Esboniwyd nad oedd rheidrwydd ar Ofcom i gytuno i MOU gydag S4C, ond nodwyd fod swyddogion Ofcom Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhelliad, ond y byddai angen disgwyl i weld beth fydd barn Ofcom yn ganolog.

Yn dilyn y drafodaeth, cymeradwyodd y Bwrdd yr MOU drafft i'w gyflwyno ar gyfer trafodaeth gydag Ofcom Cymru.

Cytundebau Archwilio Mewnol ac Allanol

Cyflwynwyd diweddariad er gwybodaeth parthed trefniadau archwilio S4C.

Y Cytundeb Archwilio Mewnol

Mae swyddogion wedi cynnal trafodaethau gyda PWC o ran ymestyn eu cytundeb am flwyddyn, ac o ran cynllunio'u rhaglen waith.

Y Cytundeb Archwilio Allanol

Mae swyddogion wedi cynnal trafodaethau gyda DCMS parthed opsiynau ar gyfer penodi'r NAO yn archwilwyr allanol S4C o 2019-20.

Nid yw'n glir pryd y bydd cyfle i'r Llywodraeth gyflwyno mesur seneddol er mwyn addasu'r darpariaethau'n ymwneud â phenodi archwilwyr allanol i S4C.

Roedd swyddogion wedi pwysleisio i DCMS yr angen i ddod i ddealltwriaeth buan ar y mater, gan y bydd angen i S4C sicrhau bod archwilwyr allanol yn eu lle ar gyfer 2019-20. Mae DCMS wedi awgrymu y bydd angen i S4C naill ai ymestyn tymor yr archwilwyr presennol, neu ail-dendro'r gwasanaeth nes y bydd cyfle i gyflwyno deddfwriaeth.

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Strwythur y gweithgareddau masnachol- diweddariad

Cyflwynodd EM ddiweddariad Powerpoint a oedd yn amlinellu strwythur arfaethedig y gweithgareddau masnachol. Nodwyd y byddai papur ffurfiol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Tachwedd.

Bydd y drefn newydd yn cynnwys Panel Buddsoddi, sef Aelodau'r Tim Rheoli a fydd yn monitro perfformiad y gronfa fasnachol yn fisol, gydag un aelod yn gyfrifol am noddï unrhyw brosiect newydd, y Bwrdd Masnachol yn monitro perfformiad y buddsoddiadau'n rheolaidd, ac yn cyfeirio unrhyw fater sydd angen sylw i'r Bwrdd. Bydd y Bwrdd hefyd yn cymeradwyo unrhwy fentrau newydd, a'r strategaeth fasnachol a'r cynllun busnes blynyddol.

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog newydd, byddai'r Bwrdd Unedol yn penodi holl gyfarwyddwyr y grŵp masnachol.

Cyflwynwyd egwyddorion ar gyfer y protocol buddsoddi mewn cwmnïau cynhyrchu a chwmnïau yn y sector ddigidol.

Bydd angen sicrhau fod unrhyw fuddsoddiadau o'r fath yn cael eu gwneud am resymau masnachol, nad oes mantais gystadleuol annheg i'r cwmnïau perthnasol, nad oes mynediad i wybodaeth fasnachol sensitif am S4C, fod pob perthynas gyda'r cwmnïau ar hyd braich, bod gwrthdaro buddiannau yn cael ei adnabod a'i reoli'n briodol, a bod dim aelod o staff S4C ar fyrdau'r cwmnïau.

Bydd angen datblygu canllawiau clir i'r comisiynwyr a staff perthnasol, a chyn rhoi comisiwn i gwmni perthnasol, byddai angen cwblhau ffurflen yn profi cydymffurfiaeth â'r protocol a'i gyflwyno i'r Prif Swyddog Gweithredol ar gyfer cymeradwyaeth.

Bwriedir cyflwyno trefn gwynion ar gyfer buddsoddi mewn cwmnïau, gan ddefnyddio'r drefn gwynion arferol fel sail i'r broses.

Penderfynwyd y dylid cyflwyno canllawiau clir ar gyfer buddsoddi mewn cwmnïau cynhyrchu teledu a digidol, ynghyd â phroses ar gyfer ystyried buddion masnachol, ac ardrawiad posibl buddsoddiadau i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

7. **Partneriaethau - Dysgwyr**

Rhoddyd diweddariad ar lafar i'r Bwrdd parthed trafodaethau gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol. Roedd Sioned Wyn Roberts hefyd wedi darparu crynodeb ar bapur i'r Pwyllgor Cynnwys yn ystod ei gyfarfod ddoe. Mae'r bartneriaeth newydd wedi arwain at ail-gynllunio darpariaeth S4C ar gyfer dysgwyr a fydd yn lansio ym mis Ionawr.

Roedd lansiad wedi ei drefnu ar y cyd gyda'r Ganolfan ar y 12fed o Ragfyr.

MoU Mudiad Meithrin

Cyflwynodd CHR MOU sydd wedi ei ddatblygu rhwng S4C a Mudiad Meithrin ar gyfer prosiect Clwb Cwtsh. Esboniwyd mai S4C fydd partner darlledu swyddogol y cynllun.

Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau fod swyddogion yn monitro deilliannau'r bartneriaeth, beth yw natur ymwneud S4C a beth yw ffrwyth y bartneriaeth a sut mae modd ei fesur.

Cymeradwyodd y Bwrdd yr MOU rhwng S4C a Mudiad Meithrin.

8. Arolwg Staff

Cyflwynodd C. Whitmore grynodedb o ymatebion yr Arolwg Staff a gynhaliwyd yn ddiweddar. Roedd yr arolwg wedi ei gynnal cyn symud i'r Egin er mwyn cael gwaelodlin ar gyfer asesu newidiadau dros y blynyddoedd nesaf.

Roedd staff yn nodi fod ganddynt ymrwymiad i S4C, ac yn deall gwerthoedd a strategaeth S4C. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cynnwys sylwadau am adleoli i'r Egin.

Holwyd sut oedd canlyniadau'r holiadur yn cymharu gyda chyrff cyffelyb eraill, a nodwyd fod bwriad i weld a oedd modd llunio cymariaethau er mwyn cynorthwyo'r broses o asesu perfformiad S4C.

Penderfynwyd darparu copi o'r ymatebion i'r holl gwestiynau i'r Aelodau.

Nododd y Cadeirydd yr angen i barhau i ystyried sut i fonitro materion cyffelyb ar draws y sector, yn ogystal ag o fewn gweithlu uniongyrchol S4C.

Holwyd a oedd ystyriaeth yn cael ei roi i geisio unwaith eto am achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl ("IIP").

Roedd elfen o bryder y gallai gofynion biwrocraatiaeth cynllun IIP fod yn ormodol ar gyfer sefydliad bychan, yn enwedig ar ôl i ganran sylweddol o'r staff technegol drosglwyddo i'r BBC yn 2019. Serch hyn, nodwyd y byddai swyddogion yn ystyried a ellid gweithredu'n unol ag amcanion a safonau IIP, heb o bosib geisio achrediad llawn.

8. Materion Staffio

Nododd OE fod Llion Iwan wedi penderfynu gadael S4C a chofnododd ei ddiolch iddo am ei holl wasanaeth i S4C.

Roedd y cynlluniau ar gyfer ad-drefnu'r timau digidol yn cael eu diweddarau er mwyn dosrannu cyfrifoldebau LII. Mae Ruth Meadows bellach wedi ymuno gydag S4C, a bydd ei chyfrifoldebau'n cynnwys llwyfannau digidol, Clic, cyfathrebu a dadansoddi digidol.

9. Cynnwys a Pherfformiad y Gwasanaeth

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 26 Medi ynghyd ag adroddiad ar lafar yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref.

Nodwyd fod cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ddoe wedi bod yn gyfle i drafod perfformiad diweddar y gwasanaeth mewn manylder.

Cyfeiriwyd at brif benawdau'r Adroddiadau Cynnwys a Dadansoddi a chafwyd trafodaeth am yr adroddiad a pherfformiad y gwasanaeth.

Nodwyd y bydd Diwrnod i Ffwrdd fis Rhagfyr yn gyfle pwysig i ystyried perfformiad y strategaeth a'r gwasanaeth, gan gynnwys ystyried opsiynau ar gyfer adfer perfformiad y gwasanaeth. Bydd yr opsiynau hyn yn cynnwys tair scenario bosib, gan gynnwys gwybodaeth am yr amserlen, y gyllideb a rhagamcanion ffigyrau gwyllo.

Penderfynwyd y bydd opsiynau cychwynnol ar gyfer ail-drefnu'r amserlen, yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Tachwedd. Bydd yr opsiynau hyn hefyd yn cynnwys rhagamcanion ffigyrau gwyllo, costau, effaith ar frand S4C ac amserlen ar gyfer cyflawni'r opsiynau.

Nodwyd fod yr amserlen wedi newid sawl gwaith yn ystod y blynyddoedd diweddar, a phwysleisiwyd yr angen i ail-edrych ar y broses a'r rhesymeg dros newidiadau'r gorffennol cyn cyflwyno argymhellion ar gyfer newidiadau pellach.

Nodwyd fod bwriad i gyflwyno'r canlynol i'r Bwrdd mewn pryd ar gyfer y Diwrnod i Ffwrdd: strategaeth plant newydd, strategaeth drama newydd, opsiynau ar gyfer y ddarpariaeth chwaraeon a thair scenario ar gyfer natur y gwasanaeth dros y 5 mlynedd nesaf.

10. **Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2018/19.**

Cyflwynwyd Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2018/19, a nodwyd fod y Pwyllgor Cynnwys wedi ei ystyried yn ei gyfarfod ddoe, a bod y Pwyllgor yn argymhell i'r Bwrdd i gymeradwyo'r Cynllun.

Nodwyd fod y Cynllun drafft yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd gyda thri chwarter y flwyddyn eisoes wedi mynd. Esboniwyd fod trafodaethau hawliau'r Pro14 wedi golygu nad oedd modd cytuno ar bob elfen o'r cynllun cyn hyn.

O gofio fod y BBC yn parhau i ddarparu elfennau pwysig o'r gwasanaeth yn ddyddiol megis Pobol y Cwm a Newyddion, nodwyd yr angen i sicrhau fod cynllun rhaglenni'n cael ei drafod a'i gymeradwyo mewn da bryd o hyn allan cyn dechrau'r flwyddyn dan sylw.

Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Rhaglenni ar gyfer 2018/19.

11. **Adroddiad o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynnwys**

Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar Medi 26ain ac adroddiad ar lafar o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar Hydref 24ain er gwybodaeth. Nodwyd bod prif elfennau'r drafodaeth ar berfformiad y gwasanaeth a gafwyd yn y cyfarfod hwnnw wedi'u hadleisio yng nghyfarfod heddiw.

12. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**

Cafwyd trafodaeth am nifer o raglenni a ddarlledwyd yn ystod y mis aeth heibio.

13. **Diwrnod i Ffwrdd**

Nodwyd y bydd cyfle i drafod strwythur a phwrpas y Diwrnod i Ffwrdd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.

14. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**
Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.
15. **Rhaglen Waith**
Cyflwynwyd Rhaglen Waith y Bwrdd ar gyfer gweddill 2018, a dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd yn 2019 er gwybodaeth.
16. **Unrhyw Fater Arall**
Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.